Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 17 Chwefror 2021 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P M Black | P Downing | P R Hood-Williams |
| L James | M H Jones | P K Jones |
| J W Jones | I E Mann | B J Rowlands |
| D W Thomas | W Thomas | L Jones |
| S Jones | M White | S Gallagher |
| W Fitzgerald | | |

**Mynychwyr eraill**

| | |
|---|---|
| R Stewart | Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth (yr Arweinydd) |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Emily-Jayne Davies | Swyddog Craffu |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |
| Ben Smith | Swyddog Adran 151 a’r Prif Swyddog Cyllid |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
D Helliwell and T Hennegan

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau

2 **Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau

3 **Cofnodion.**

Ystyriodd y Panel lythyrau a chofnodion o gyfarfodydd blaenorol a chytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2021 yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan aelodau'r cyhoedd

## 5 Cynigion y Gyllideb 2021/22 - 2023/24 - craffu cyn penderfynu

Cyfarfu'r Panel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid, gan gynnwys aelodau o'r Panel Craffu Perfformiad Datblygu ac Adfywio, i ystyried Cynigion y Gyllideb Flynyddol eleni. Cyfarfu Panel Craffu Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd a'r Panel Craffu Perfformiad Addysg yn y dyddiau cyn y cyfarfod ac ystyriwyd eu hadborth.

## 6 Crynhoi Barn a Chyflwyno Argymhellion

Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd

- Mae'r panel yn teimlo ei bod yn hanfodol bwysig ein bod yn sicrhau bod digon o arian yn cael ei glustnodi yn y gyllideb i ddarparu cymorth iechyd a lles ychwanegol i staff yn dilyn y pandemig. Mae'r panel yn awyddus i weld menter ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd o ran cymorth i staff.
- Maent yn fodlon iawn ar sefyllfa'r gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol eleni, gyda chynnydd yn y gyllideb gyffredinol ac ychydig iawn o ran toriadau. Fodd bynnag, mae'r panel yn ymwybodol bod angen cyflawni llawer iawn o bethau gyda'r arian hwn.
- Mae'r panel yn pryderu mai dim ond y gyllideb net y mae'n ei gweld. Byddai'n ddefnyddiol gweld manylion y ffrydiau incwm yn ogystal â gwariant. Mae swyddogion wedi cytuno i weithio gydag Aelodau'r Cabinet i ddarparu'r wybodaeth hon.
- Hoffai'r panel gefnogi proses y gyllideb mewn unrhyw ffordd y gall ac felly mae'n bwriadu ailedrych ar y gyllideb eto yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn monitro cynnydd yn ofalus.

Addysg

- Roeddem yn fodlon ar y cyfan â chyllideb eleni fel y mae'n ymwneud â materion addysg.
- Rydym yn croesawu'r gwariant cyfalaf a'r cynnydd gros o 3.3% yn y gyllideb ysgolion dirprwyedig.
- Roeddem yn falch bod Addysg yn parhau i fod yn un o brif flaenoriaethau Cyngor Abertawe.
- A oes darpariaeth yn y gyllideb i sicrhau bod unrhyw dreuliau a ysgwyddir gan yr ysgolion hynny a arhosodd ar agor drwy gydol cyfnod COVID-19 yn cael eu had-dalu?
- Gofynnwyd pa gynigion arbedion sydd mewn perthynas â Chludiant Ysgol. Dywedwyd wrthym y bydd y cynigion a fydd yn destun ymgynghori yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Mawrth. A ellir eu dosbarthu i'r Panel Craffu Addysg, unwaith y byddant ar gael?
- A yw cost ôl troed newydd posibl ERW a chau strwythur presennol ERW wedi'i gynnwys yn y gyllideb?
- Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i Ysgolion, Llywodraethwyr a'r Adran Addysg am eu gwaith rhagorol dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn enwedig sut maen nhw wedi rheoli'r heriau y mae'r cyfnod COVID-19 hwn wedi'u cyflwyno.

<u>Yr Amgylchedd Naturiol</u>
Dylai'r broses recriwtio i swyddi newydd, o ganlyniad i Ymchwiliad Craffu'r Amgylchedd Naturiol, adlewyrchu'r argymhellion canlynol:

- Bydd y rôl Ecolegydd Cynllunio yn un amser llawn (yn hytrach na rhan-amser fel y'i hysbysebir ar hyn o bryd)
- Bydd Swyddog Bioamrywiaeth yn rôl amser llawn (yn hytrach na rhan-amser fel y'i hysbysebir ar hyn o bryd)
- Dylai Swyddog Gweithredu ar yr Hinsawdd fod yn 0.5 (yn hytrach na 0.2)

<u>Datblygu ac Adfywio</u>

- O ran y risg sy'n gysylltiedig â'r Fargen Ddinesig, hoffai'r panel gael eglurhad ar lefel y benthyca a sut bydd hyn yn effeithio ar ffrydiau refeniw yn y dyfodol.
- Mae'r panel yn gofyn am eglurder ynghylch faint o swyddi a gaiff eu creu i adlewyrchu faint o fuddsoddiad sydd ym mhob un o brosiectau'r Fargen Ddinesig.
- Byddai'r panel yn elwa o ddadansoddiad manylach o ba arian sydd wedi'i wario mewn perthynas â'r Fargen Ddinesig ac ar yr hyn sydd wedi'i gynllunio ar hyn o bryd.
- Hoffai'r panel gael dealltwriaeth glir o risgiau sy'n gysylltiedig â chostau cyfalaf parhaus a'r incwm o'r datblygiadau newydd.

*Gwella Gwasanaethau a Chyllid*

- Nododd y panel fod y Gyllideb eleni yn unigryw ac yn ddigynsail. Mae'n ddogfen fyw a dyma'r tro cyntaf i ran sylweddol o'r gyllideb fod yn seiliedig ar yr hyn a allai ddigwydd. Diolchwn i swyddogion a staff am eu gwaith caled ac rydym yn cydnabod bod yr arian wedi'i ddosbarthu'n gyflym.
- Hoffai'r panel gael gwell dealltwriaeth o'r gofrestr risgiau o ran costau refeniw parhaus, gyda'r ansicrwydd ynghylch ad-daliadau gan Lywodraeth Cymru
- Mae'r panel yn nodi bod y gyllideb yn ddogfen fyw sy'n agored i newid, ac felly mae wedi bod yn anodd craffu arni'n llawn eleni.
- Mynegwyd pryderon gennym ynglŷn â'r effaith ariannol a pherfformiad ar gyllid y cyngor y cydbwyllgorau lluosog yn y dyfodol a godir yn erbyn y gyllideb, a pheryglon pwyllgorau o'r fath i Gyllideb y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am11.42 am